



WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Aseiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Awst 2010



**Cyf: 414A2010**

Llun trwy garedigrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Arweiniwyd Tîm Aseiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gan Stephen Martin (Arweinydd Asesu Gwelliant) a Karen Lees (Cydlynnydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner).

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi datblygu ffocws cliriach ar flaenoriaethau ac mae rhai agweddau ar ei drefniadau'n cefnogi gwelliant tra bo eraill ond yn ei gefnogi'n rhannol.**

**Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ  
Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn Testun: 029 2032 0660  
E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)  
Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk)



# Cynnwys

Crynodeb	4
<b>Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser</b>	<b>6</b>
Ar ôl cyfnod o berfformiad sefydlog ond uchelgais prin mae gan y Cyngor ffocws cliriach o ran ei flaenoriaethau ar gyfer gwella ac mae wedi dechrau rhoi rhai trefniadau ar waith er mwyn cefnogi'r agenda hon	6
Yn rhan gynharaf y degawd diwethaf, roedd perfformiad y Cyngor yn sefydlog ond nid oedd ganddo uchelgais	6
Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi datblygu ffocws cliriach ar flaenoriaethau a gwelliannau, ac wedi gosod rhai sylfeini er mwyn helpu i gyflawni ei flaenoriaethau	6
Mae rhai trefniadau i gefnogi newid yn dechrau ymfurfio ond nid yw eraill yn barod ar gyfer amgylchedd heriol y dyfodol	7
<b>Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella</b>	<b>9</b>
Mae gan y Cyngor fwy o ffocws ar wella, fframwaith polisi clir, sefyllfa ariannol gadarn, a rhaglen drawsnewid sydd newydd ei sefydlu, ond erys rhai meysydd i'w datblygu	9
Mae fframwaith arweinyddiaeth, polisi a strategaeth y Cyngor a'i ddefnydd o adnoddau yn datblygu'n gadarnhaol i gefnogi gwelliant	9
Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i weithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid tuag at gyflawni amcanion a mwy o fuddiannau pendant ar draws y gymuned	12
Mae prosesau democrataidd, rheoli pobl a phrosesau busnes yn cefnogi gwelliant, ond hyd yn hyn nid ydynt yn gwneud cymaint o gyfraniad ag y gallent	13

## Crynodeb

- 1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.
- 2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

  - Asesiad Corfforaethol - sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
  - Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd.
- 3 Y nod yw cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.
- 4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig, a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.
- 5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus.' Mae effaith bosibl y gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd wedi'i hamlygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Ar ôl cael tystiolaeth gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC nad oes dianc o'r ffaith y bydd yn rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio gwariant cyfredol a'r ddarpariaeth gwasanaethau ac ni ellir datrys y diffygion drwy fod yn effeithlon yn unig. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys ystyried opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithio. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.
- 6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau'r Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'
- 7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r



wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynnyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.

- 8 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod y Cyngor wedi datblygu ffocws cliriach ar flaenoriaethau ac mae rhai agweddau ar ei drefniadau'n cefnogi gwelliant tra bo eraill ond yn ei gefnogi'n rhannol.
- 9 Seiliwyd ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i ategu gwelliant. Ceir esboniad manwl o'r casgliadau hyn yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad, yn y drefn honno. Canfuwyd y canlynol:
  - ar ôl cyfnod o berfformiad sefydlog ond uchelgais prin mae gan y Cyngor ffocws cliriach o ran ei flaenoriaethau ar gyfer gwella ac mae wedi dechrau rhoi rhai trefniadau ar waith er mwyn cefnogi'r agenda hon;
  - mae gan y Cyngor fwy o ffocws ar wella, fframwaith polisi clir, sefyllfa ariannol gadarn, a rhaglen drawsnewid sydd newydd ei sefydlu, ond erys rhai meysydd i'w datblygu.

## Arolygiad arbennig

- 10 Ar sail yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur.

## Argymhellion

- 11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella ar gyfer y Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur nac wedi argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gynorthwyo'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

## Meysydd i'w Gwella

- 12 Nododd yr asesiad y meysydd canlynol lle y cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu.

### Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella

- |    |   |
|----|---|
| C1 | Datblygu mesurau canlyniadau priodol ymhellach ar gyfer amcanion.   |
| C2 | Sicrhau bod rolau aelodau a rolau craffu'r Bwrdd Gweithredol yn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau yn effeithiol ac yn golygu y gall y broses craffu ganolbwyntio ar faterion â blaenoriaeth. |
| C3 | Datblygu trefniadau cynllunio gweithlu corfforaethol.   |
| C4 | Gwella'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig er mwyn cysylltu adnoddau fwyfwy â blaenoriaethau.  |
| C5 | Parhau i wella prosesau busnes drwy symleiddio trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi rheoli, monitro a chraffu effeithiol.   |

## Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

**Ar ôl cyfnod o berfformiad sefydlog ond uchelgais prin mae gan y Cyngor ffocws cliriach o ran ei flaenoriaethau ar gyfer gwella ac mae wedi dechrau rhoi rhai trefniadau ar waith er mwyn cefnogi'r agenda hon**

**Yn rhan gynharaf y degawd diwethaf, roedd perfformiad y Cyngor yn sefydlog ond nid oedd ganddo uchelgais**

- 13** Lluniwyd y Cyngor ar ôl i Gyngor Sir Clwyd ymrannu ym 1996. Dechreuodd dan Arweinyddiaeth y Blaid Lafur, newidiodd hyn ar ôl etholiad 2000 i glymblaid y blaid Lafur a'r Radicaliaid. Parhaodd y Cyngor yn sefydlog a chyfunodd y trefniant newydd yn llwyddiannus. Roedd arweinyddiaeth gref yn bodoli o ran rheoli, ond prin oedd cyfeiriad gwleidyddol y broses gwneud penderfyniadau, ac nid oedd Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn Ddeiliaid Portffolio.
- 14** Ym mis Mai 2003, dechreuodd Prif Weithredwr newydd yn ei swydd, a dechreuodd ar raglen o newid o ran rheoli. Fel rhan o'r broses, daeth chwe swydd cyfarwyddwr yn gysylltiedig â gwasanaethau yn bedair swydd cyfarwyddwr strategol a pherfformiad,

ac, yn 2009, yn dair swydd. Rhwng 2004 a 2009, nid oedd gan y cyfarwyddwyr newydd gyfrifoldeb uniongyrchol am ddarparu gwasanaethau, gan fod y cyfrifoldeb hwn wedi'i ddatganoli i Brif Swyddogion. Yn 2005 nododd Taith tuag at Welliant Swyddfa Archwilio Cymru "while there are clearly areas that have seen significant improvement, the overall tendency latterly has been for the Council to slip towards becoming a coasting authority, rather than an authority striving to improve. Transforming the Council from a coasting to striving will require a cultural change and this is the greatest challenge facing the Council".

**Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi datblygu ffocws cliriach ar flaenoriaethau a gwelliannau, ac wedi gosod rhai sylfeini er mwyn helpu i gyflawni ei flaenoriaethau**

- 15** Ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol a nododd Llythyr Archwilio Blynyddol 2007-2008 y bu gwelliant mewn llawer o feysydd gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Nododd hefyd fod lle i wella rhagor ar drefniadau partneriaeth a sut y mae'r Cyngor yn ymateb i argymhellion gan ei reoleiddwyr allanol.
- 16** Unodd Cynghrair y Democratiaid Rhyddfrydol/Annibynwyr i greu'r blaid fwyaf ar ôl etholiadau mis Mai 2008 ac mae gan y Bwrdd Gweithredol aelodaeth gytbwys o saith plaid a grŵp gwleidyddol. Drwy broses gynllunio a barodd ddeg mis yn 2008, nododd y



Cyngor dri maes â blaenoriaeth lle maent am gyflawni newid sylweddol dros y tair blynedd nesaf. Gelwir y rhain yn flaenoriaethau'r Cyngor, sef:

- tai fforddiadwy;
- gwell addysg a sgiliau ar gyfer cyflogaeth;
- lleihau allyriadau carbon a defnyddio llai o ynni.

- 17 Yn 2009 cytunwyd ar Strategaeth Gymunedol ar gyfer Wrecsam, a mabwysiadodd y Cyngor ddogfen weledigaeth newydd 'Diffinio ein Cyfeiriad', sef rhan gyntaf Cynllun y Cyngor. Mae'r Cynllun yn cynnwys tair blaenoriaeth y Cyngor ynghyd â saith o "Flaenoriaethau gwella", sy'n seiliedig ar gynlluniau a strategaethau presennol, ac sy'n adlewyrchu cyfran fawr o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.
- 18 Ym mis Medi 2009 cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamod ar ddatganiadau ariannol 2008-09.
- 19 Ym mis Tachwedd 2009 nododd Llythyr Blynyddol 2008-09 'mae arweinyddiaeth glir i'r Cyngor, ac mae'n cynnig amryw o enghreifftiau o arfer da ac arloesedd, ond bydd angen iddo wella'n sylweddol i fynd i'r afael â phwysau ariannol yn y dyfodol a'r her o wneud mwy gyda llai o adnoddau'.
- 20 Cyflawnwyd y gwelliant cyffredinol hwn yn ystod cyfnod o dair blynedd pan gafwyd setliadau ariannol cymharol isel. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gan y Cyngor hanes da o gyfyngu gwariant o fewn y gyllideb ac roedd ganddo lefel foddhaol o gronfeydd ariannol wrth gefn. Cafwyd rheolaeth gorfforaethol gadarn a chafwyd enghreifftiau o

gymhwyso arfer da o leodd eraill a'i roi ar waith. Nododd AGGCC yn 2009 fod argymhellion diogelu plant (yn deillio o adroddiad Ymchwiliad Victoria Climbié) wedi'u rhoi ar waith i raddau helaeth, ond erys meysydd pwysig i'w gwella.

### **Mae rhai trefniadau i gefnogi newid yn dechrau ymffurfio ond nid yw eraill yn barod ar gyfer amgylchedd heriol y dyfodol**

- 21 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau i ddinasyddion, a rhoi'r gorau i ddiwylliant mewnlol o fonitro pa un a gaiff tasgau eu cwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y Cyngor i symud tuag at fesurau canlyniadau sy'n dangos yn glir os yw gwaith y Cyngor yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl yn y fwrdeistref.
- 22 Ar ddechrau 2010, cymeradwywyd Rhaglen Drawsnewid gan y Bwrdd Gweithredol â'r nod o gyflwyno dull gweithredu eang ei gwmpas er mwyn mynd i'r afael â'r heriau ariannol a gwella gwerth am arian. Sefydlwyd trefniadau i reoli'r rhaglen waith hon ac maent yn cynnwys Bwrdd, cronfa 'buddsoddi i arbed' gwerth £1 miliwn, ac yn ddiweddar penodwyd Rheolwr Rhaglen; swydd ar y cyd â Chyngor Sir y Flint.
- 23 Er iddo gael setliad ariannol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer 2010-11, nododd y Cyngor bod angen gwario £5 miliwn yn llai ar draws adrannau. Mae'r gostyngiadau hyn yn fach o gymharu â gostyngiadau posibl y dyfodol, a allai fod yn agosach at £30-£40 miliwn dros y tair i bedair blynedd nesaf.

- 24** Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad adolygiad llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ym mis Rhagfyr 2008. Nododd hwn bod y Cyngor yn awdurdod ag iddo arweinyddiaeth glir sy'n cynnig amryw o enghreifftiau o arfer da ac arloesedd yn erbyn pob un o'r saith Egwyddor Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd. Codwyd cwestiwn hefyd ynghylch a fyddai gallu corfforaethol y Cyngor yn ddigonol i'w alluogi i arwain a rheoli newid mor fawr y mae pob cyngor yng Nghymru yn ei wynebu.
- 25** Erys meysydd i'w datblygu ymhellach er mwyn sicrhau bod holl drefniadau corfforaethol y Cyngor yn addas ar gyfer y dyfodol. Yn benodol, nid yw rheoli pobl ac agweddau ar reoli perfformiad o hyd yn ddigon cadarn o hyd i gefnogi gwelliant yn y modd gorau posibl.





## Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

**Mae gan y Cyngor fwy o ffocws ar wella, fframwaith polisi clir, sefyllfa ariannol gadarn, a rhaglen drawsnewid sydd newydd ei sefydlu, ond ers rhai meysydd i'w datblygu**

**Mae fframwaith arweinyddiaeth, polisi a strategaeth y Cyngor a'i ddefnydd o adnoddau yn datblygu'n gadarnhaol i gefnogi gwelliant**

**Mae arweinyddiaeth wleidyddol ac arweinyddiaeth swyddogion yn darparu ffocws clir ac uchelgais ar gyfer gwella**

**26** Bu gan y Cyngor Fwrdd Gweithredol gwleidyddol gytbwys drwy gydol ei fodolaeth. Cyflwynwyd system aelodau arweiniol yn 2005 ac ers hynny mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Bwrdd Gweithredol wedi arwain meysydd megis gofal cymdeithasol neu amgylchedd a thrafnidiaeth. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gweithio'n dda ac mae'n sefydlog ar hyn o bryd, er bod angen cryn dipyn o fewnbwn gan yr Arweinydd i gynnal barn gyffredin ar faterion allweddol, ac i gytuno ar benderfyniadau. Mae'r dull anymladdgar hwn yn gweithio'n effeithiol i Wrecsam, ac mae'r Arweinydd yn ymrwymedig i ddatblygu gwaith tîm.

**27** O fewn y Bwrdd Gweithredol, mae rôl yr aelodau Arweiniol wedi'i diffinio a disgwylir iddynt roi arweinyddiaeth wleidyddol i'r maes a bennwyd iddynt ond nid oes ganddynt bwerau dirprwyedig ar gyfer y gwaith hwn. Er bod hyn yn arferol yn Wrecsam, mae sawl cyngor yng Nghymru wedi canfod bod rhoi pwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau bach i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn gallu gwella atebolrwydd a'u hannog i wella perfformiad ymhellach o fewn gwasanaethau.

**28** Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi sefydlu cydberthynas waith effeithiol er mwyn arwain gwelliant. Mae'r tri chyfarwyddwr strategol a pherfformiad yn darparu arweinyddiaeth reoli ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor ac mae hyn yn creu diwylliant sy'n ceisio lleihau seilos adrannol a darparu atebolrwydd cliriach.

**Mae cyfeiriad ac amcanion strategol wedi'u diffinio, ond bydd angen mwy o eglurder o ran yr hyn nad yw'n flaenoriaeth yn y dyfodol**

**29** Yn ystod 2008, cynhaliodd y Cyngor adolygiad i sicrhau bod y strategaeth gymunedol bresennol yn canolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i bobl leol. Arweiniodd yr adolygiad hwn at lunio'r strategaeth gymunedol newydd ar gyfer 2009-20 sy'n darparu cyfeiriad clir i waith y blynyddoedd sydd i ddod.

- 30** Mae'r Cyngor wedi rhoi'r holl gynlluniau statudol sy'n ofynnol iddo eu llunio ar waith. Mae sefydliadau partner eraill megis cyrff iechyd, yr heddlu, ac mewn llawer o achosion, defnyddwyr y gwasanaethau eu hunain wedi bod yn rhan o'r gwaith datblygu. Mae'r Cyngor wedi arwain gwaith gyda sefydliadau partner i ddatblygu a gweithredu strategaeth cydlyniad cymunedol, a chafodd hwn ei gydnabod yn enghraifft o arfer da gan yr Asiantaeth Gwella a Datblygu ar gyfer llywodraeth leol (IDeA).
- 31** Mae Cynllun y Cyngor 2009-12 yn nodi tair blaenoriaeth glir ar gyfer y Cyngor, y mae Aelodau a swyddogion yn eu deall yn iawn, ac mae'n ceisio rhoi ffocws ar ganlyniadau i waith y Cyngor. Mae'r Cynllun yn disgrifio'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni o ran pob blaenoriaeth ac yn rhestru nifer fach o weithgareddau y bydd y Cyngor yn eu cynnal yn y flwyddyn nesaf. Mae Byrddau Prosiect yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn ynghyd â chyfranogiad Aelodau a swyddogion. Nid oes gan y Byrddau bwerau dirprwyedig ac nid ydynt yn ymddangos yng nghyfansoddiad y Cyngor; a chaiff penderfyniadau allweddol eu cyfeirio at y Bwrdd Gweithredol i'w cymeradwyo.
- 32** Lluniodd y Cyngor hefyd saith blaenoriaeth gwella sy'n deillio o ymrwymïadau presennol â phartneriaid o dan y cynlluniau statudol, sef:
- bwyta'n iach ac annog pobl i fod yn fwy egnïol;
  - ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau ac amgyffred o droseddau;
  - cynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol;
  - lleihau gwastraff ac ailgylchu i'r eithaf;
  - mynediad at wasanaethau a gwranddo ar y cyhoedd a'u cael i ddylanwadu ar wasanaethau;
  - hybu cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog a hyrwyddo diwylliant Cymreig;
  - prosiectau datblygu sefydliadol (y Rhaglen Drawsnewid erbyn hyn).
- 33** Ym mis Mai 2010 mabwysiadodd Bwrdd y Cyngor wythfed flaenoriaeth gwella sef 'diogelu ein plant' mewn ymateb i adolygiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).
- 34** Er bod y Cyngor wedi ceisio llunio'r blaenoriaethau hyn i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau, maent yn amrywio, a gallai ddibynnu ar ba mor glir y disgrifiwyd y canlyniadau yn y cynlluniau statudol perthnasol i ryw raddau. Er enghraifft, mae gan y blaenoriaeth gwella bwyta'n iach ac annog pobl i fod yn fwy gweithgar un mesur canlyniad lefel uchel sef lleihau lefel gordewdra yn Wrecsam. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor a'i bartneriaid yn glir pa fesurau eraill ddylai gyfrannu ati, ac er bod llawer iawn o weithgarwch yn mynd rhagddo, ansicr yw ei effaith. Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai nodi'r canlyniadau'n gliriach o fudd i lwyddiant y blaenoriaethau hyn.
- 35** Er bod pob blaenoriaeth yn berthnasol a bod y Cyngor wedi ymgynghori â sefydliadau trigolion a phartneriaid, mae'r hyn a gyfrannwyd ganddynt o ran helpu i ddewis y blaenoriaethau hyn yn aneglur. Adeg ein hasesiad roedd y Cyngor wrthi'n adolygu ei ddull ymgynghori corfforaethol. Fel rhan o'n



gwaith pellach, byddwn yn monitro datblygiad y strategaeth gymunedol newydd, yn ystyried grŵp ehangach o bolisiau, ac yn ystyried a yw'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a dulliau cyfathrebu yn ategu'r broses o gyflawni strategaethau yn llawn.

**36** Mae tair blaenoriaeth y Cyngor, yr wyth blaenoriaeth gwella ac ystod o flaenoriaethau gwella gwasanaethau yn cwmpasu rhan helaeth o waith y Cyngor. Cafwyd llai o eglurder am yr hyn nad yw'n flaenoriaeth neu sut bydd y Cyngor yn dechrau nodi'r materion hyn sydd â llai o flaenoriaeth. Gan ystyried y dyfodol ariannol llymch sy'n wynebu'r Cyngor, bydd gan y Cyngor benderfyniadau pwysig ac anodd o bosibl i'w gwneud.

**Bydd rheoli adnoddau ariannol yn gadarn a chymau cynnar y rhaglen drawsnewid a chynllunio mewn ymateb i heriau ariannol yn sail i gefnogi gwelliant**

**37** Mae gan y Cyngor system weithredu ariannol gref a ddatblygwyd yn dda, a nodwyd hyn yn ein Llythyrau Blynyddol i'r Cyngor dros nifer o flynyddoedd.

**38** Un maes a nodwyd ar gyfer gwella yn y gorffennol oedd yr angen i gynyddu lefel y cronfeydd ariannol wrth gefn a gedwir gan y Cyngor, i lefel fwy darbodus. Mae'r Cyngor wedi cynyddu lefel y cronfeydd wrth gefn dros gyfnod o flynyddoedd i sefyllfa y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hystyried yn fwy priodol. Bydd angen i'r Cyngor fonitro hyn a sicrhau bod y lefel yn parhau'n ddarbodus os caiff risgiau ariannol newydd eu nodi.

**39** Mae gan y Cyngor hanes da o weithredu o fewn y gyllideb, a rheoli pwysau cyllidebol blynyddol yn effeithiol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi wynebu pwysau cyllidebol mwy sylweddol mewn nifer fach o feysydd gwasanaeth gan gynnwys:

- diogelu a chymorth, gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, lleoliadau y tu allan i'r sir, maethu ac anawsterau dysgu (oherwydd galwadau cynyddol);
- amgylchedd (oherwydd cynnydd ym mhrisiau tanwydd).

**40** Rheolodd y Cyngor y pwysau hwn drwy ymgysylltu â'r Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hyn a dod o hyd i atebion er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion posibl.

**41** Hefyd mae'r Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol posibl arall:

- Mae wrthi'n amddiffyn hawliad rhwymedigaeth wrth gefn ar Chwarel yr Hafod;
- nid yw eto wedi setlo unrhyw hawliad o blith nifer sylweddol o hawliadau cyflog cyfartal.

**42** Mae Aelodau'n ymwneud yn helaeth ag adolygu'r gyllideb, sy'n rhoi cyfleoedd iddynt ddeall y sefyllfa ariannol ac i ddylanwadu ar sut y caiff y gyllideb ei dyrannu. Ystyriwyd pwysau a blaenoriaethau cyllidebol fel rhan o'r broses hon. Y dull gweithredu o ran gwneud arbedion dros y blynyddoedd diwethaf oedd gweithredu gostyngiad canrannol ar draws nifer o feysydd gwasanaeth. Bellach mae'r Cyngor yn wynebu cyfnod ariannol mwy heriol ac mae'n bosibl y caiff taliadau grant eu lleihau tua £30 i £40 miliwn dros y tair i

bedair blynedd nesaf. O ystyried y cyfnod heriol hwn a phenderfyniadau gwario anodd, bydd yn rhaid i'r Aelodau gysylltu'r sefyllfa ariannol yn agosach â'r blaenoriaethau.

- 43** Datblygodd y Cyngor strategaeth ariannol tymor canolig; ond mae hon ar lefel uchel. Byddai datblygu strategaeth fanylach sy'n cynnwys dull gweithredu ar gyfer dyrannu adnoddau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau o fudd iddo, ac mae wedi dechrau ystyried dull o'r fath.
- 44** Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ymateb i'r heriau ariannol ac mae wedi cytuno ar ddull gweithredu i 'drawsnewid' y Cyngor. Bydd Bwrdd Aelodau'r Rhaglen Drawsnewid ac uwch swyddogion, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad, â chefnogaeth y Rheolwr Rhaglen sydd newydd ei benodi, yn goruchwyllo'r gwaith hwn. Bydd y Bwrdd Rhaglen hwn yn rheoli ystod o adolygiadau gwasanaeth ochr yn ochr â newidiadau a fydd yn arwain at fodel busnes mwy cynaliadwy ar gyfer y Cyngor erbyn 2012. Bydd hyn yn cynnwys adolygiadau o asedau, trafniadaeth ac ad-drefnu'r strwythurau rheoli. Dynodwyd cyllideb o £1 filiwn i hwyluso'r gwaith hwn a fydd yn cael ei ddefnyddio'n rhannol i gefnogi datblygiadau 'buddsoddi i arbed'.
- 45** Mae gwasanaethau corfforaethol megis adnoddau dynol a TGCh yn ymwneud â'r gwaith hwn, ac mae'r timau TGCh yn ymgysylltu'n dda ag adrannau eraill er mwyn nodi materion sy'n ymwneud â gwasanaethau allweddol lle y mae angen datblygu TGCh. Bydd defnyddio TGCh mewn ffordd strategol yn allweddol o ran alluogi gwaith y Cyngor, a byddwn yn adolygu'r cynnydd fel rhan o'n gwaith.

### **Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i weithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid tuag at gyflawni amcanion a mwy o fuddiannau pendant ar draws y gymuned**

- 46** Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn ymwneud yn weithredol â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd wedi datblygu 'gweledigaeth strategol' a rhaglen ar gyfer newid. Yr Arweinydd sy'n cadeirio'r Bwrdd. Y Prif Weithredwr yw arweinydd y bwrdd rhaglen gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, un o bedair ffrwd gwaith allweddol y Bwrdd Partneriaeth. Gallai'r ymagwedd hon at waith cynllunio rhanbarthol arwain at welliannau sylweddol drwy gydweithio. Mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu at waith partneriaeth rhanbarthol presennol ac arfaethedig drwy Gydweithrediaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru (Cydweithrediaeth Gogledd Cymru). Mae Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol y Cyngor yn cadeirio'r grŵp hwn, a'r Cyngor hefyd yw noddwr prosiectau gofal cartref rhanbarthol Cydweithrediaeth Gogledd Cymru.
- 47** Mae gan y Cyngor lawer o drefniadau cydweithredol ar hyn o bryd â chynghorau eraill gan gynnwys staff asiantaeth a rennir, gwasanaethau cynllunio arbenigol, a gwasanaethau y tu allan i oriau ar y cyd. Hefyd, mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth gydlyniant unedig, aml-asiantaethol â phartneriaid allweddol. Mae'r gwaith ar hyn wedi bod yn mynd rhagddo am dros bedair blynedd, a chaiff ei gynnwys fel enghraifft o arfer da ar wefan IDeA.



- 48** Mae Bwrdd Gwasanaeth Lleol Wrecsam wrthi'n datblygu ffocws ei waith ac mae Cytundebau Cyflenwi Lleol ar waith ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â Strategaeth Gymunedol Wrecsam. Mae'r rhain yn cynnwys y prosiect Tîm o Amgylch yr Unigolyn (a elwir yn Connect 4U bellach) a'r prosiect Gwella Iechyd Meddwl.
- 49** Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid, er bod y broses o ail-gyflunio cyrff iechyd yn ddiweddar wedi effeithio ar rai trefniadau. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyfrannu at benodi Cynrychiolydd Rheoli Awdurdod Lleol rhanbarthol (Llysgennad) ar gyfer chwe chyngor Gogledd Cymru ar Dîm Rheoli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fel rhan o'n gwaith pellach, byddwn yn ystyried barn partneriaid, yn darparu Cytundebau Cyflenwi Lleol ac yn monitro cynnydd strategaethau partneriaethau a datblygiadau.
- 50** Mae'r Cyngor hefyd wedi buddsoddi egni'n gweithio ar draws adrannau yn y Cyngor. Mae'r Cyfarwyddwyr Strategol a Pherfformiad yn arwain amcanion trawsbynciol ar draws y cyngor, ac yn comisiynu gwaith gan Brif Swyddogion mewn cyfarwyddiaethau gwahanol er mwyn cyflawni'r agenda hon. Bu llai o ddulliau seilo o weithio yn y Cyngor, a cheir amryw o enghreifftiau o weithio trawsddisgyblaeth, yn enwedig ar lefelau uwch, megis tai fforddiadwy a bwyta'n iach ac annog pobl i fod yn fwy egniol.

### **Mae prosesau democrataidd, rheoli pobl a phrosesau busnes yn cefnogi gwelliant, ond hyd yn hyn nid ydynt yn gwneud cymaint o gyfraniad ag y gallent**

### **Mae prosesau democrataidd yn foddhaol ond gallent wneud mwy i gefnogi gwelliant yn llawn**

- 51** Mae nifer o gyfleoedd gan Aelodau etholedig i gymryd rhan mewn trafodaethau ac i herio, gan gynnwys drwy weithdai aelodau a grwpiau gorchwyl a gorffen craffu. Mae cyfleoedd hefyd gan Aelodau i drafod materion yng nghyfarfodydd pwyllgor y Cyngor. Cynrychiolir Aelodau ar dri bwrdd prosiect ar gyfer meysydd blaenoriaeth y Cyngor, ac ar Fwrdd y Rhaglen Drawsnewid.
- 52** Mae gan y Cyngor bum pwyllgor craffu, sy'n gweithredu mewn ffordd briodol, ac sy'n gyffredinol yn effeithiol o ran darparu her amhleidiol, hyddysg, er bod yr agendâu'n llawn.
- 53** Er mwyn hwyluso'r broses adolygu a chynorthwyo'r broses datblygu polisi, mae pwyllgorau craffu wedi sefydlu sawl grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn mynd i'r afael â materion penodol. Fodd bynnag, ni chaiff sawl un o'r rhain ei ddirwyn i ben, sy'n arwain at grwpiau a chyfarfodydd niferus, sy'n rhoi pwysau ar adnoddau. Cydnabuwyd y mater hwn a chaiff rhai grwpiau eu hadolygu.
- 54** Mae pwyllgorau craffu'n aml yn ystyried materion cyn i'r Bwrdd Gweithredol wneud hynny ac maent yn gwerthfawrogi'r rôl 'cyn-craffu' hon, er y gall gymryd cryn amser. Maent yn ceisio gweithredu'r rôl o ddwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif drwy eu gwaith gan gynnwys galw am eglurhad

o benderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol yn achlysurol. Fodd bynnag, mae'r broses yn tueddu i weithredu drwy graffu ar swyddogion yn hytrach nac ar y Weithrediaeth neu'r Aelodau Arweiniol. Mae'r trefniadau presennol yn darparu proses ar gyfer craffu ar faterion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau, ond nid oes proses glir ar gyfer craffu ar ganlyniadau a gwerth am arian materion trawsbynciol.

- 55** Dylai pob cyngor bennu ei drefniadau ei hun a sicrhau eu bod yn effeithiol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau. Nid yw aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn Wrecsam erioed wedi cael cyfrifoldebau portffolio drwy gynllun pwerau dirprwyedig. Yn hytrach, mae gan y prif feysydd gwasanaeth Aelodau Arweiniol, sy'n gweithredu fel prif lefarydd gwleidyddol dros eu meysydd cyfrifoldeb. Gallai'r ffaith na chaiff cyfrifoldeb ei ddirprywo i'r Aelodau Arweiniol, a bod adroddiadau i'r pwyllgor craffu yn cael eu cyflwyno gan swyddogion, olygu nad os cymaint o ymdeimlad o berchnogaeth dros y rolau Arweiniol gan olygu bod y Bwrdd Gweithredol llawn yn gorfod treulio mwy o amser nag sydd ei angen ar faterion bach.
- 56** Efallai na fydd gan y trefniadau craffu presennol ddigon o ffocws ar gyfer y cyfnod heriol o'n blaenau. I sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn darparu'r gefnogaeth orau ar gyfer gwella yn y dyfodol, dylai'r Cyngor symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu i sicrhau bod rolau yn glir ac y rhoddir amser i'r materion y rhoddir y pwys mwyaf arnynt.
- 57** Gwnaeth y Cyngor gynnydd o ran datblygu aelodau etholedig a chyflawnodd lefel gyntaf Siarter Datblygu Aelodau CLILC ym mis Hydref 2008. Mae disgrifiadau swydd ar waith ar gyfer rôl pob aelod ac

mae'r Cyngor wedi datblygu set graidd o hyfforddiant ar gyfer aelodau. Fodd bynnag, ym mis Mai 2010 cytunodd Bwrdd Gweithredol y Cyngor i beidio â chymryd camau pellach i baratoi a gwneud cais am lefel nesaf Siarter CLILC gan nad oedd yr aelodau'n fodlon derbyn adolygiadau cymheiriaid, a cheir rhywfaint o wrthwynebiad i hyfforddiant craidd gorfodol.

### **Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rheoli pobl yn parhau'n risg, a chaiff cynllun i fynd i'r afael â hyn ei ddatblygu**

- 58** Mae'r Prif Weithredwr wedi cynnal cyfres o sioeau teithio er mwyn cwrdd ag aelodau o staff a chydabod y gwaith da maent yn ei wneud a nodi'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Ceir llwybrau sefydledig ar gyfer cyflwyno negeseuon corfforaethol i'r staff, ond prin yw'r adborth a gafwyd gan aelodau'r staff i'r Tîm Rheoli Strategol. Cydnabyddir hyn ac mae rhai camau'n cael eu cymryd i chwilio am ffyrdd i wella cyfathrebu deuffordd.
- 59** Mae gan y Cyngor lefelau cymharol dda o ran cofnodion cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch, a chyflwynwyd system arfarnu cyflogaion newydd eleni. Mae fframwaith cymhwysedd yn sail i'r system hon, y mae'r Cyngor yn parhau i'w datblygu.
- 60** Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd rheoli pobl yn effeithiol, ac mae'r Prif Swyddog Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen Drawsnewid. Mae Strategaeth Adnoddau Dynol newydd 2010-12 yn anelu at greu fframwaith o bolisïau a gweithdrefnau pobl integredig, sy'n cefnogi aelodau staff y Cyngor wrth iddynt ddarparu gwasanaethau. Lluniwyd y cynllun dwy flynedd i adeiladu gwasanaeth rheoli pobl cryf i ddechrau ac yn yr ail flywyddyn i gefnogi'r Cyngor yn ei



broses drawsnewid. Bydd llwyddiant y Strategaeth hon yn hanfodol i gynlluniau trawsnewid y Cyngor yn y dyfodol, gan fod problemau o ran gallu ac adnoddau o fewn y tîm Adnoddau Dynol ar hyn o bryd. Er mwyn cefnogi'r datblygiadau hyn, mae'r Tîm Rheoli Strategol wedi cymeradwyo strwythur newydd yn ddiweddar ar gyfer Adnoddau Dynol, a'r gobaith yw y bydd yn arwain at wasanaeth sy'n fwy addas i gefnogi'r newidiadau sefydliadol y mae'r Cyngor am eu gwneud. Gan fod hwn yn faes risg i gynlluniau gwella'r Cyngor o hyd, byddwn yn adolygu'r broses o gyflawni'r strategaeth Adnoddau Dynol fel rhan o'n gwaith parhaus.

- 61** Mae proses o gynllunio'r gweithlu ar waith mewn rhai meysydd gwasanaeth ond nid yw wedi'i datblygu'n ddigonol, ac nid oes gan y Cyngor gynllun ar gyfer y gweithlu sy'n gysylltiedig â'i flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac yn ymwybodol nad yw rhai o'i setiau sgiliau wedi'u datblygu'n ddigonol.
- 62** Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion yn ymwneud â statws sengl beth amser yn ôl, ac yn fwy diweddar, mae wedi dirwyn trafodaethau ar gyfer rhan tri o'r statws sengl i ben. Roedd hwn yn amser heriol i'r Cyngor, a chafwyd cydberthnasau diwydiannol ychydig yn fregus am gyfnod byr. Ymddengys fod y broblem wedi'i datrys, ac mae'r Undebau wedi croesawu'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys ar Fwrdd y Rhaglen Drawsnewid.

### **Mae prosesau rheoli busnes helaeth ar waith, ond nid oes digon o ffocws ganddynt ar hyn o bryd i hyrwyddo'r newid perfformiad sylweddol sydd ei angen ar gyfer y dyfodol**

- 63** Sefydlwyd prosesau busnes datblygedig a adolygir yn flynyddol. Cafwyd mwy o bwyslais ar ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac mae'r Cyngor wedi symud i ddefnyddio Ffynnon (system feddalwedd wedi'i chaffael yn genedlaethol ar gyfer rheoli perfformiad) yn gyfan gwbl yn gynt na'r rhan fwyaf o gynghorau a hon yw'r prif gyfrwng a ddefnyddir mewn perthynas â gwybodaeth am berfformiad bellach.
- 64** Mae gan y Cyngor ganllawiau wedi'u diffinio'n glir er mwyn cynorthwyo gwasanaethau o ran eu cynllunio, er na ddilynwyd y canllawiau hyn fel mater o drefn ar gyfer cynlluniau 2009-10. Er bod prosesau cynllunio gwasanaethau ar waith, nid ydynt yn hyrwyddo gwelliant yn glir; mae'r cynlluniau'n rhy gymhleth a phrin yw'r her gadarn. Mae'r gwasanaeth Adfywio wedi datblygu fframwaith gwerthuso mewn ymateb i'r gwendid a gydnabuwyd yn genedlaethol yn y broses ar gyfer gwerthuso gwelliannau adfywio. Mae'r dull gweithredu hwn yn edrych yn addawol, ond mae'n rhy fuan i asesu a fydd yn effeithiol.
- 65** Mae gan y Cyngor drefniadau helaeth ar gyfer monitro perfformiad, ac mae swyddogion ac Aelodau'n adolygu adroddiadau ar berfformiad fel rhan o broses sy'n cymryd cryn amser. Y rhesymau am hyn, yn rhannol, yw bod yr adroddiadau'n anodd eu deall, ceir dyblygu a rhai gwendidau posibl o ran dilysu mewnol. Byddai o fudd i'r Cyngor gael prosesau symlach, sy'n canolbwyntio ar y meysydd pwysig ac sy'n hyrwyddo'r newid a'r gwelliant y mae'r Cyngor am eu cyflawni.

- 66** Mae gan y Cyngor gofrestr risg strategol ac mae cofrestrau risg ar gyfer tair blaenoriaeth y Cyngor a phob un o'r partneriaethau strategol. Fodd bynnag, nid oes gan bob un o flaenoriaethau gwella'r Cyngor drefniadau rheoli risg cadarn.
- 67** Caiff methodoleg rheoli prosiect ei chymhwyso i dair blaenoriaeth y Cyngor, a phrosiectau dethol eraill, ond nid i bob un o'r Blaenoriaethau gwella. Rydym wedi canfod bod ansawdd y broses rheoli prosiect yn gymysg, a byddai trefniadau rheoli prosiect mwy ffurfiol o fudd i'r blaenoriaethau gwella.



